Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU   LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro)(Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2001**

## Y Cefndir

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu swm y cyfalaf cychwynnol ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Caerdydd a'r Fro, o dan adran 9 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990.

Sefydlwyd yr Ymddiriedolaeth ei hun yn rhinwedd y Ddeddf honno.

## Rheol Sefydlog 11.5

Cafwyd bod y gorchymyn drafft a gyflwynwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor yn hollol foddhaol. Gan hynny, ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion yr oedd angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt. Er hynny, pan gafodd y Gorchymyn ei gyflwyno'n ffurfiol i'r Pwyllgor Deddfau, fe welwyd ei fod yn cynnwys y diffygion canlynol, nad oeddent ar gael yn y drafft gwreiddiol –

> Mae'r dyddiad dod i rym (31 Mawrth 2001 yn y drafft a gyflwynwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor) wedi'i hepgor yn y pennawd ac yn erthygl 1(1).
>
> Mae'r swm y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef (£194,142,000 yn y drafft a gyflwynwyd i gynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor) wedi'i hepgor o erthygl 2.

Mae'n ymddangos bod drafft cynharach o'r Gorchymyn wedi'i osod, yn lle'r drafft terfynol.

Er bod y gwallau hyn yn sylfaenol ar gyfer y Gorchymyn, gan mai diwygiad testunol cyfyngedig sy'n angenrheidiol ac oherwydd y ffordd y cododd y gwallau, mae'r Pwyllgor yn

fodlon derbyn y gellir eu trin fel mân wallau drafftio at ddibenion Memorandwm Cywiriadau o dan RhS 22.13.  Gan hynny, cyhyd ag y gosodir Memorandwm Cywiriadau o'r fath yn y modd priodol, mae'r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes dim materion yn codi o dan RhS 11.5.

Ond os na chaiff Memorandwm Cywiriadau ei osod, yn ddarostyngedig i unrhyw sylwadau y gallai'r Gweinidog Cynulliad perthnasol fod am eu cyflwyno o dan RhS 11.4, mae'r Pwyllgor o dan rwymedigaeth i wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn hwn ar y sail bod y ddau beth a hepgorwyd yn gyfystyr â drafftio diffygiol.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

27 Chwefror 2001